# Adolygu’r broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mawrth 2017

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cloi ein hadolygiad o’r broses o reoleiddio’r Post Brenhinol. Cafodd yr adolygiad ei gynnal i sicrhau bod y broses reoleiddio yn dal yn briodol ac yn ddigonol i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu mewn ffordd effeithlon ac mewn ffordd sy’n gynaliadwy’n ariannol.

Ar ôl cyhoeddi dogfen drafod ym mis Gorffennaf 2015, roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Mai 2016 a oedd yn nodi ein cynigion o ran y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau post yn y dyfodol. Wrth baratoi'r datganiad hwn, rydym wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid i’r naill ddogfen a’r llall.

Mae’r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad ynghylch y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau post yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar bum prif faes:

- Cynnal dull rheoleiddio sy’n cydnabod y gostyngiad strwythurol mewn llythyrau a marchnad parseli sy’n dod yn fwy cystadleuol, ac ymestyn y fframwaith rheoleiddio am bum mlynedd arall;
- Cefnogi cystadleuaeth ac arloesedd yn y sector parseli;
- Tynhau’r rheolau ar gystadleuaeth mynediad;
- Gwneud yn siŵr bod y broses o reoleiddio diogelwch eitemau post yn canolbwyntio ar feysydd priodol, a sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr; a
- Sicrhau bod yr holl amodau rheoleiddio’n dal yn briodol ac yn addas i’r diben.

Mae’r datganiad hwn yn rhoi’r fframwaith rheoleiddio newydd ar waith ar unwaith, ac eithrio’r Amod Mynediad newydd ar gyfer y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol. Daw i rym ar 1 Ebrill 2017 er mwyn rhoi cyfle i’r Post Brenhinol wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i’w drefniadau masnachol.

Ar ben hynny, yn dilyn adborth gan y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu diwygio ein cynnig gwreiddiol o ran y Cod Ymarfer ar gyfer Gweithdrefnau Gweithredol Cyffredin y Post (PCOP). Rydym yn amlinellu cynnig newydd yn y ddogfen hon, ac yn gofyn am ymatebion ynghylch hyn erbyn 3 Ebrill 2017.

**Adran 1**

# Crynodeb Gweithredol

## Sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n effeithlon ac yn gynaliadwy'n ariannol, ac sy'n diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr

2.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau terfynol ynghylch y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau post. Mae'n egluro sut byddwn yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol sy'n effeithlon ac yn gynaliadwy'n ariannol yn cael ei ddarparu, a'i fod yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr.

2.2 Mae'n dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r broses o reoleiddio'r Post Brenhinol a oedd yn edrych ar amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol; cystadleuaeth yn y sectorau parseli a llythyrau; lefelau boddhad cwsmeriaid a pha mor briodol yw amodau rheoleiddio.

**Y prif benderfyniadau**

**Cynnal y dull rheoleiddio presennol am bum mlynedd arall:** Rydym wedi penderfynu y dylai'r dull rheoleiddio a sefydlwyd yn 2012 aros mewn lle tan 2022. Rydym o'r farn na fyddai hi'n briodol gosod rheolaethau prisiau cyfanwerthu neu adwerthu a/neu dargedau effeithlonrwydd ar y Post Brenhinol er mwyn cyflawni amcanion y drefn reoleiddio. Mae amodau'r farchnad a disgyblaeth rhanddeiliaid mae'r Post Brenhinol yn atebol iddi fel cwmni preifat yn fwy tebygol o fod yn effeithiol wrth sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n effeithlon ac yn gynaliadwy'n ariannol, yn hytrach na gosod rheoliadau ychwanegol.

**Cefnogi cystadleuaeth ac arloesedd yn y sector parseli:** Y ffordd orau o ofalu am fuddiannau defnyddwyr yw drwy gystadleuaeth. Mae gan y Deyrnas Unedig un o'r sectorau parseli mwyaf cystadleuol yn y byd. Fodd bynnag, mae'r Post Brenhinol yn dal mewn sefyllfa dda yn y sector parseli unigol a pharseli ysgafn mewn swmp. Rydym wedi penderfynu y dylid cadw'r cap diogelu ar brisiau parseli â stampiau Ail Ddosbarth er mwyn sicrhau bod defnyddwyr bregus yn gallu defnyddio gwasanaeth cyffredinol sylfaenol. Rydym hefyd wedi penderfynu cadw'r sefyllfa bresennol o ran parseli gwasanaeth cyffredinol safonol, h.y. peidio â chynnwys gwasanaeth tracio. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd mae defnyddwyr yn defnyddio'r gwasanaeth cyffredinol mewn gwirionedd, ac yn hybu cystadleuaeth drwy beidio â rhoi mantais gystadleuol annheg i'r Post Brenhinol.

**Tynhau'r rheolau ar gystadleuaeth mynediad:** Mae cystadleuaeth mynediad yn dal i berfformio'n dda, ac yn diwallu anghenion pobl sy'n anfon llawer o eitemau post. Rydym wedi penderfynu ei bod yn briodol cadw trefn reoleiddio ar gyfer post mynediad sy'n rhoi hyblygrwydd gweithredol a masnachol i'r Post Brenhinol, ar yr amod bod newidiadau i delerau ac amodau yn deg ac yn rhesymol ac nad ydynt yn gwahaniaethu'n amhriodol. I sicrhau bod cystadleuaeth mynediad yn dal i berfformio'n dda, rydym wedi penderfynu cadw set wedi'i haddasu o egwyddorion prisiau mynediad. Rydym hefyd wedi diwygio'r amod rheoleiddio perthnasol i egluro'r amgylchiadau pan ganiateir rhoi llai na 10 wythnos o rybudd am newidiadau i delerau, amodau a ffioedd ar gyfer mynediad.

**Newid ffocws rheolau diogelwch eitemau post:** Rydym wedi penderfynu diwygio'r broses reoleiddio bresennol ar gyfer diogelwch eitemau post i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar eitemau post sydd heb fesurau gwarchod ychwanegol – fel gwasanaeth tracio – ond a allai

gynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol. Felly, bydd y broses reoleiddio’n berthnasol i lythyrau mawr a llythyrau heb eu tracio, a pharseli gwasanaeth cyffredinol heb eu tracio. Ni fydd yn berthnasol i wasanaethau parseli eraill nac i wasanaethau post mynediad yn ehangach, sydd â mesurau gwarchod ychwanegol fel arfer.

**Sicrhau bod y broses reoleiddio’n dal yn briodol ac yn addas i’r diben:** Rydym yn cyflwyno amryw o newidiadau a fydd yn sicrhau nad yw rheoliadau’n rhoi baich gormodol ar gwmnïau post, gan warchod defnyddwyr ar yr un pryd. Mae’r rhain yn cynnwys lleihau’r cyfnod rhybudd ymlaen llaw ar gyfer yr amseroedd casglu a nodwyd i fis, a chael gwared ar y cyfnod rhybudd ymlaen llaw ar gyfer yr amseroedd danfon diweddaraf. Fodd bynnag, yn dilyn adborth gan y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu peidio â chael gwared ar yr Amod a’r Cod Ymarfer presennol ar gyfer Gweithdrefnau Gweithredol Cyffredin y Post (PCOP). Pwrpas y rheoliad hwn yw sicrhau bod eitemau post sy’n mynd i rwydwaith y cwmni post anghywir yn cael eu dychwelyd at y cwmni a oedd i fod i gael yr eitemau post, ac yn cael eu danfon gynted â phosib. Yn hytrach na hynny, rydym yn cynnig cadw’r gofyniad y dylai cwmnïau post perthnasol ymrwymo i’r Cytundeb PCOP, oni bai eu bod wedi ymrwymo i drefniadau eraill priodol. Rydym yn ymgynghori ar y cynigion hynny ar hyn o bryd.

## Y Cefndir

2.3 Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad ynghylch sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd, saith mlynedd o hyd, ar gyfer y sector post (“**Datganiad Mawrth 2012**”). Roedd yn rhoi mwy o hyblygrwydd masnachol a gweithredol i’r Post Brenhinol er mwyn iddo allu sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy’n ariannol unwaith eto, ac addasu i’r farchnad wrth iddi newid. Ar yr un pryd, fe roddom dri mesur diogelu allweddol ar waith, sef:

- **Monitro**: trefn fonitro barhaus ac effeithiol i gadw golwg ar berfformiad y Post Brenhinol o ran y gwasanaeth cyffredinol, lefelau effeithlonrwydd, prisiau a chystadleuaeth;
- **Fforddiadwyedd**: cap ar bris stampiau Ail Ddosbarth ar gyfer llythyrau a pharseli hyd at 2kg, er mwyn i ddefnyddwyr bregus allu defnyddio gwasanaeth cyffredinol sylfaenol; a
- **Chystadleuaeth**: mynnu bod y Post Brenhinol yn dal yn caniatáu i’w gystadleuwyr yn y sector llythyrau gael mynediad at rwydwaith y Post Brenhinol.

2.4 Bu amryw o ddatblygiadau sylweddol yn y farchnad bost hefyd ers 2012, er enghraifft:

- Mae sefyllfa ariannol y gwasanaeth cyffredinol wedi gwella;
- Mae mwy o gystadleuaeth ac arloesedd o ran gwasanaethau parseli, a gallai hynny effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol; a
- Gadawodd Whistl y farchnad danfon llythyrau pen-i-ben yn 2015, sy’n golygu nad oes gan y Post Brenhinol unrhyw gystadleuaeth o sylwedd yn y farchnad llythyrau pen-i-ben mwyach.

2.5 Yn sgil y newidiadau hyn, ar 16 Mehefin 2015 cyhoeddom adolygiad sylfaenol o'r broses o reoleiddio'r Post Brenhinol.[1] Nod yr adolygiad oedd sicrhau bod y broses reoleiddio'n dal yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol.

2.6 Ar 17 Gorffennaf 2015 cyhoeddom bapur trafod ("**Dogfen Drafod Gorffennaf 2015**") a oedd yn egluro cwmpas arfaethedig yr adolygiad.[2] Roedd y papur yn gofyn am dystiolaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid i helpu ein gwaith dadansoddi.

2.7 Ar 25 Mai 2016, cyhoeddom ymgynghoriad ("**Ymgynghoriad Mai 2016**") a oedd yn amlinellu cynigion ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post yn y dyfodol.[3]

2.8 Mae'r datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau terfynol. Mae hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar un agwedd ar y fframwaith rheoleiddio (PCOP) lle rydym wedi adolygu ein cynigion yn dilyn yr ymgynghoriad.

## Rydym yn bwriadu cadw'r dull rheoleiddio presennol am bum mlynedd arall

2.9 Wrth asesu'r broses reoleiddio bresennol, rydym wedi dadansoddi effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol, yr amodau cystadleuol yn y sectorau llythyrau a pharseli, a phrofiad defnyddwyr o wasanaethau post.

### Rydym o'r farn bod y Post Brenhinol yn gynaliadwy'n ariannol, ond ei fod yn wynebu llawer o heriau

2.10 Rydym o'r farn ei bod yn debygol y bydd y gwasanaeth post cyffredinol yn dal yn gynaliadwy'n ariannol yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae llawer o senarios negyddol credadwy a allai effeithio ar allu'r Post Brenhinol i wneud elw yn y dyfodol o fewn yr ystod 5%-10% ar gyfer Enillion cyn Treth a Llog (EBIT), sy'n gyfradd enillion masnachol resymol yn ein barn ni.

2.11 Rydym wedi penderfynu cadw'r dull presennol o fesur cynaliadwyedd ariannol ar sail elw'r Post Brenhinol ar werthiant, ac rydym o'r farn bod yr ystod 5-10% ar gyfer EBIT a nodwyd yn 2012 yn dal yn feincnod priodol. Mae elw'r Post Brenhinol ar ben is yr ystod hon ar hyn o bryd.

### Mae'r Post Brenhinol wedi gwneud gwelliannau effeithlonrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond gallai wneud mwy

2.12 Mae gan y Post Brenhinol gymhelliant cryf i fod yn fwy effeithlon yn y dyfodol er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol. Mae ein dadansoddiad yn dangos y gallai'r Post Brenhinol wneud rhagor o welliannau effeithlonrwydd, ac rydym o'r farn bod amodau'r farchnad mae'n eu hwynebu yn gymhelliant iddo wneud hynny. Byddwn yn dal i fonitro ei effeithlonrwydd yn ofalus.

---

[1] Gweler http://media.ofcom.org.uk/news/2015/royal-mail-regulation-review/.

[2] Gweler Dogfen Drafod Gorffennaf 2015, http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/royal-mail-regulation-review/summary/Review_of_RM_regulation.pdf.

[3] Gweler Ymgynghoriad Mai 2016, https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/royal-mail-review2016.

## Ers 2012, mae'r Post Brenhinol wedi codi prisiau ar lefel gymedrol

2.13 Yn ein barn ni, mae'n annhebygol y bydd y cyfyngiadau mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu yn ddigon i'w atal rhag codi prisiau mewn llawer o sectorau yn y farchnad bost. Yn benodol, y Post Brenhinol sy'n dal i ddanfon y mwyafrif helaeth o lythyrau, ac felly nid yw'n wynebu prin ddim cyfyngiadau o ran ei brisiau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi nad yw wedi codi prisiau cymaint ag y gallai fod wedi'i wneud. Ar ôl codi prisiau'n sylweddol yn 2011-12 ac yn 2012-13 er mwyn bod yn broffidiol unwaith eto, mae wedi codi prisiau ar raddfa eithaf cymedrol.

2.14 Mae rhai rhannau o'r sector parseli yn gystadleuol, yn enwedig parseli trymach (dros 2kg) a'r rheini mae angen eu danfon yn gyflym. Fodd bynnag, er bod y gystadleuaeth wedi cynyddu, rydym o'r farn bod gan y Post Brenhinol fantais o hyd o ran parseli unigol a anfonir gan ddefnyddwyr a busnesau bach a chanolig , ynghyd â pharseli bach ac ysgafn mewn swmp.

## Mae defnyddwyr a busnesau yn fodlon â'r farchnad bost

2.15 Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr yn dal yn fodlon â gwasanaethau post, ac yn dal i deimlo bod stampiau yn werth eithaf da am arian, neu'n werth da iawn am arian. Mae lefelau boddhad â'r Post Brenhinol a chwmnïau post eraill hefyd yn uchel ymysg busnesau bach a chanolig. Mae ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol wedi gwella'n gyffredinol ers i'r fframwaith rheoleiddio presennol gael ei roi ar waith.

## Rydym o'r farn bod y dull rheoleiddio presennol yn dal yn briodol

2.16 Rydym wedi ystyried a oes ellir cyfiawnhau gosod rheolaethau prisiau a/neu dargedau effeithlonrwydd ar rannau o fusnes y Post Brenhinol – fel yr oedd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn galw amdano – er mwyn sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr yn cael ei ddarparu.

2.17 Rydym o'r farn bod amodau'r farchnad a disgyblaeth rhanddeiliaid yn fwy tebygol o fod yn effeithiol wrth sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n effeithlon ac yn gynaliadwy'n ariannol, yn hytrach na gosod rheoliadau ychwanegol.

2.18 Rydym hefyd wedi ystyried dadl y Post Brenhinol, sef bod angen mwy o ymyriadau rheoleiddio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn gynaliadwy'n ariannol.

2.19 Nid ydym yn cytuno bod angen ymyriadau rheoleiddio ar hyn o bryd er mwyn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol. Rydym o'r farn mai hyblygrwydd masnachol, yn amodol ar rai mesurau diogelu, ynghyd â chyfradd resymol o welliant mewn effeithlonrwydd, yw'r ffordd fwyaf tebygol y gall y Post Brenhinol sicrhau sefydlogrwydd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol, er gwaethaf yr heriau mae'n eu hwynebu.

## Rydym yn bwriadu cadw'r dull rheoleiddio presennol tan 2022

2.20 Ar ôl cynnal yr adolygiad sylfaenol hwn, rydym yn cynnig y dylid cadw'r fframwaith rheoleiddio am bum mlynedd arall.

2.21 Byddwn yn dal i fonitro'r farchnad yn ofalus, ac yn cadw'r hawl i ymyrryd. Er nad yw'n bosib nodi'r holl amgylchiadau lle gallwn gamu i mewn, dyma rai enghreifftiau:

- Os bydd bygythiadau i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol yn dod i'r amlwg, na fyddai modd i'r Post Brenhinol ddelio â nhw drwy gymryd camau masnachol yn unig.

- Canlyniadau negyddol i ddefnyddwyr – fel cynnydd sylweddol mewn prisiau neu wasanaeth o ansawdd gwael – lle nad oes fawr ddim cystadleuaeth, os o gwbl.

- Methiant ar ran y Post Brenhinol i wneud digon o gynnydd i fod yn fwy effeithlon, gan godi prisiau uwch ar ddefnyddwyr a/neu gynnig gwasanaeth o ansawdd is nag y byddai'n ei wneud mewn marchnad gystadleuol o bosib.

2.22 Hefyd, byddwn yn dal i fesur a chasglu gwybodaeth am anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post. Mae hyn yn hynod bwysig wrth i ddymuniadau defnyddwyr newid o ran rhai gwasanaethau post, yn enwedig parseli. Mae'n debygol y bydd Ofcom yn cynnal adolygiad o anghenion defnyddwyr gwasanaethau post yn ystod y cyfnod o bum mlynedd.

## Cefnogi cystadleuaeth ac arloesedd yn y sector parseli

2.23 Roedd y Post Brenhinol yn dadlau bod y broses reoleiddio yn ei rwystro'n annheg rhag cynnig gwasanaeth tracio llawn ar gyfer parseli safonol fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol. Yn ôl y Post Brenhinol, mae hynny'n ei rwystro rhag ymateb i ofynion cwsmeriaid, a sicrhau bod cynnyrch y gwasanaeth cyffredinol yn dal yn berthnasol.

2.24 Rydym wedi penderfynu cadw'r sefyllfa bresennol o ran parseli gwasanaeth cyffredinol safonol, h.y. peidio â chynnwys gwasanaeth tracio. Nid ydym yn gwrthwynebu'r egwyddor o gynnwys gwasanaeth tracio ar gyfer parseli o'r fath yn y dyfodol, os byddai hynny'n helpu i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Fodd bynnag, mae perygl y byddai caniatáu i'r Post Brenhinol gynnig gwasanaeth tracio fel rhan o'r gwasanaeth cyffredinol yn gallu rhoi mantais annheg iddo dros ei gystadleuwyr, gan fod cynnyrch y gwasanaeth cyffredinol wedi'u heithrio o TAW ar hyn o bryd. Felly, byddai gan y Post Brenhinol fantais o ran pris parseli wedi'u tracio, a gallai hynny niweidio'r gystadleuaeth yn y sector parseli.

2.25 Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r cap diogelu ar barseli â stampiau Ail Ddosbarth hyd at 2kg yn dal yn angenrheidiol, o ystyried y gystadleuaeth sydd wedi datblygu yn y sector parseli. Rydym o'r farn nad yw'r gystadleuaeth wedi datblygu ddigon eto i gyfyngu ar brisiau'r Post Brenhinol ar barseli unigol, ac felly rydym wedi penderfynu cadw'r cap diogelu.

2.26 Rydym hefyd yn bwriadu ystyried costau danfon parseli a llythyrau'r Post Brenhinol yn nes ymlaen eleni, ac a oes pryderon yn ymwneud â chystadleuaeth gyda rhai strwythurau prisio – er enghraifft, un rhan yn rhoi cymhorthdal i ran arall. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol perthnasol a chreu model costio i'n helpu i lunio ein barn ein hunain am gostau danfon y Post Brenhinol.

## Tynhau'r rheolau ar gystadleuaeth mynediad

2.27 Rydym wedi adolygu a yw rheoleiddio mynediad yn dal yn briodol o ran elfennau pris ac elfennau eraill y fframwaith rheoleiddio presennol. Rydym wedi penderfynu ei bod yn briodol cadw'r broses rheoleiddio mynediad ar ei ffurf bresennol i raddau helaeth.

2.28 Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu tynhau'r rheolau ar gyfer gwneud newidiadau i ffioedd, amodau a thelerau contractau. Pwrpas hynny yw egluro'r amgylchiadau lle gellir cytuno ar gyfnod rhybudd byrrach er mwyn rhwystro'r Post Brenhinol rhag torri

amodau’r cyfnod rhybudd rheoleiddiol wrth wneud unrhyw newidiadau i delerau ac amodau cynnyrch mynediad newydd yn y dyfodol.

2.29 Rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â’n cynnig i fynnu bod y Post Brenhinol yn ymateb o fewn chwe wythnos i geisiadau am fynediad dan fandad, lle mae eisoes yn cynnig cynnyrch adwerthu cyfatebol. Byddwn yn monitro’n fanwl sut mae proses y Post Brenhinol ar gyfer ystyried ceisiadau am gynnyrch mynediad newydd yn datblygu’n ymarferol, cyn ystyried a oes angen unrhyw ymyriadau rheoleiddio.

2.30 Rydym hefyd wedi penderfynu peidio â rhoi’r cynigion yn yr Adolygiad o Brisiau Mynediad 2014 (“**Ymgynghoriad Rhagfyr 2014**”)[4] ar waith. Fodd bynnag, byddwn yn dal i fonitro newidiadau’r Post Brenhinol i’w strwythur prisiau parthau a phrisiau mynediad, ac rydym wedi penderfynu cadw set wedi’i haddasu o egwyddorion prisiau mynediad a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro ei berfformiad.

## Newid ffocws rheoliadau ar gyfer diogelwch eitemau post

2.31 Nod rheoliadau ar gyfer diogelwch eitemau post yw sicrhau bod eitemau post yn cael eu gwarchod rhag mynd ar goll, cael eu dwyn neu eu difrodi. Mae hynny’n fwy o risg gyda’r eitemau hynny sydd heb fesurau gwarchod ychwanegol (e.e. gwasanaeth tracio), ond sy’n cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol o bosib – fel manylion banc neu gerdyn credyd, neu wybodaeth am dreth neu apwyntiadau meddygol.

2.32 Rydym wedi penderfynu diwygio’r broses reoleiddio bresennol ar gyfer diogelwch eitemau post er mwyn canolbwyntio ar barseli gwasanaeth cyffredinol, llythyrau mawr a llythyrau heb eu tracio, ond nid gwasanaethau parseli eraill na gwasanaethau post mynediad yn ehangach sydd, fel arfer, â mesurau gwarchod ychwanegol. Rydym hefyd wedi newid y broses reoleiddio i sicrhau bod gan gwmnïau post gymhelliant i ganolbwyntio ar ganlyniadau da i ddefnyddwyr yn hytrach na phroses. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cadw’r safon uchel bresennol o ran diogelwch eitemau post, ac yn codi’r safon.

## Sicrhau bod rheoliadau'n dal yn briodol ac yn addas i’r diben

2.33 Ac eithrio’r amodau rheoleiddio hynny sy’n cyflwyno rhwymedigaethau’r gwasanaeth post cyffredinol, rydym wedi adolygu’r holl reoliadau sy’n berthnasol i’r Post Brenhinol ac i gwmnïau post eraill i sicrhau eu bod yn dal yn briodol ac yn addas i’r diben. Yn dilyn hynny, rydym wedi penderfynu gwneud y canlynol:

- lleihau’r cyfnod rhybudd y mae’n rhaid i’r Post Brenhinol ei roi wrth wneud newidiadau i'r amseroedd casglu a nodwyd – o dri mis i fis;
- cael gwared ar y gofyniad i’r Post Brenhinol roi rhybudd ymlaen llaw wrth wneud newidiadau i’r amseroedd danfon diweddaraf;

---

4

Ofcom, *Adolygiad Prisiau Mynediad y Post Brenhinol - Newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith Rheoleiddio*, 2 Rhagfyr 2014
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0029/78248/royal_mail_access_pricing_review.pdf

- cael gwared ar y gofynion ar y Post Brenhinol i roi gwybod am ostyngiad mewn prisiau, gan gadw'r gofyniad i rybuddio defnyddwyr ymlaen llaw am gynnydd mewn prisiau;

- parhau i fynnu bod pob cwmni post yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau agored, syml a rhad ar gyfer delio â chwynion cwsmeriaid;

- parhau i fynnu bod y Post Brenhinol, fel darparwr y gwasanaeth cyffredinol, yn cydymffurfio â gofynion manylach ar gyfer delio â chwynion a gwneud iawn; a

- chael gwared ar amod diangen ar gyfer gwarchod defnyddwyr sy'n mynnu mai cwmnïau post sy'n danfon eitemau post, gan fod trefniadau contractau a rheoliadau eraill eisoes yn mynnu mai cwmnïau post sy'n gwneud hynny.

2.34 Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, nid ydym yn bwriadu cael gwared ar y Cytundeb na'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithdrefnau Gweithredol Cyffredin y Post (PCOP) erbyn hyn. Pwrpas y broses reoleiddio hon yw sicrhau bod eitemau post sy'n mynd i rwydwaith y cwmni post anghywir yn cael eu dychwelyd at y cwmni a oedd i fod i gael yr eitemau post, ac yn cael eu danfon gynted â phosib. Yn hytrach na hynny, rydym yn ymgynghori ar gynnig i gadw'r gofyniad y dylai cwmnïau post perthnasol ymrwymo i'r Cytundeb PCOP, oni bai eu bod wedi ymrwymo i drefniadau eraill priodol. Rydym hefyd yn cynnig gwneud newidiadau i'r Amod a'r Cod Ymarfer presennol ar gyfer PCOP er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i gwmnïau post perthnasol, a sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben.

## Y camau nesaf

2.35 Mae'r datganiad hwn yn cloi'r adolygiad ac yn rhoi'r fframwaith rheoleiddio newydd ar waith ar unwaith, ac eithrio'r Amod Mynediad newydd ar gyfer y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol. Daw i rym ar 1 Ebrill 2017 er mwyn rhoi cyfle i'r Post Brenhinol wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w drefniadau masnachol.

2.36 Rydym hefyd yn gwneud y gwaith canlynol ar wahân:

- ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol ac Amod Cyfrifyddu'r Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben, a gwneud newidiadau technegol i weithrediad manwl y rheolaeth gwasgu elw; ac

- adolygu a yw'r broses reoleiddio o ran ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn dal yn briodol yn sgil datblygiadau yn y farchnad.

2.37 Byddwn yn gofyn am ymatebion gan randdeiliaid i'n cynigion diwygiedig ar gyfer PCOP erbyn 3 Ebrill 2017.